| | |
|---|---|
| **Cyfarfod** | Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi |
| **Dyddiad** | 19 Ebrill 2018 |
| **Teitl** | Egwyddorion Addysg Addas i Bwrpas |
| **Awdur** | Garem Jackson, Pennaeth Addysg |
| **Aelod Cabinet** | Cynghorydd Gareth Thomas |
| **Pwrpas** | Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio barn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr egwyddorion addysg arfaethedig fydd yn sail ar gyfer gwireddu gweledigaeth yr Adran Addysg a datblygu'r gyfundrefn er sicrhau addysg o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc Gwynedd ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. |

**1. CEFNDIR**

1.1 Cyflwynwyd adroddiad gerbron y Cabinet ar 12 Gorffennaf 2016 yn gofyn am ganiatâd i ymgynghori gyda Llywodraethwyr ac ysgolion am addasrwydd yr egwyddorion cytunedig a fydd yn sylfaen i gyfundrefn addysg addas i bwrpas.

1.2 Yn sgil pryderon cynyddol a difrifol y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau (ar y pryd) yn dilyn adroddiad y Ffederasiwn Cynradd ac ymgynghoriadau gydag ysgolion, nodwyd sawl mater yn yr adroddiad i'r Cabinet ynglŷn ag amodau Arweinyddiaeth sef:

- bod nifer o'n hysgolion uwchradd a chynradd yn rhy fach i allu cynnig digon o amser i benaethiaid, uwch reolwyr a rheolwyr canol arwain yn effeithiol;
- y gofynion sy'n gwrthdaro ar lawer o benaethiaid cynradd ble mae ganddynt hefyd ymrwymiad sylweddol i addysgu dosbarthiadau ochr yn ochr â'u swyddogaethau rheoli ac arwain;
- anawsterau o ran recriwtio arweinwyr uwch reolaeth a rheolwyr canol mewn ysgolion uwchradd;
- anawsterau o ran recriwtio penaethiaid ar gyfer ysgolion cynradd;
- diffyg ymgeiswyr o'r tu allan i ardal yr awdurdod lleol.

1.3 Cynhaliwyd cyfres o 18 o sesiynau galw heibio ar draws Gwynedd rhwng 7 Tachwedd ac 14 Rhagfyr 2016 er mwyn ymgysylltu â rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach ynglŷn â'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd fyddai'n ymateb i'r pryderon uchod.

1.4 Bu'r sesiynau galw heibio a gynhaliwyd ar draws Gwynedd yn llwyddiannus, gan esgor ar 335 o ymatebion i'r holiadur a luniwyd ar gyfer y broses ymgynghori.

1.5 Mae'r drafodaeth ynghlwm â datblygu egwyddorion sy'n cefnogi cyfundrefn addysg addas i bwrpas yn digwydd yng nghyd-destun Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif a Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion. Mae'r weledigaeth ar gyfer addysg a hyfforddiant yn seiliedig ar chwe phrif amcan:

- Cynnig y profiadau dysgu gorau posibl gan sicrhau cwricwlwm cyffrous ac eang, yn ogystal â'r cwricwlwm allgyrsiol, sy'n eu hysgogi i ddysgu a deall ac yn arwain at wella safonau, gan wneud y defnydd gorau posibl o Dechnoleg Gwybodaeth;

- Hyrwyddo a chefnogi iechyd corfforol a lles emosiynol plant a phobl ifanc – gan sicrhau bod y prif sefydliadau addysg a hyfforddiant yn y Sir yn chwaraewyr allweddol wrth gynllunio a chyflwyno gwasanaethau integredig i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Paratoi pobl ifanc ar gyfer y byd gwaith - gan wneud yn siŵr eu bod yn cael eu harfogi efo'r mathau cywir o sgiliau ar gyfer cyflogaeth, yn enwedig o fewn yr economi leol;
- Creu amgylchedd dysgu o'r radd flaenaf i blant, pobl ifanc ac athrawon y Sir – a hynny yn bennaf drwy wella cyfleusterau ac adeiladau, a sicrhau bod ysgolion wedi'u cyflunio i ymateb i'r newid yn arferion prosesau addysgu a dysgu cyfoes, yn enwedig wrth ddefnyddio Technoleg Gwybodaeth;
- Datblygu sefydliadau addysgol o'r math cywir (cynradd ac uwchradd) i fod yn rhai sy'n ganolbwynt i wasanaethau cyhoeddus a chymunedol lle'n briodol;
- Cryfhau'r Iaith Gymraeg – fel cyfrwng addysgol a chymdeithasol – a galluogi plant a phobl ifanc i gael mynediad at addysg a hyfforddiant dwyieithog.

## 2. EGWYDDORION ARFAETHEDIG

### 2.1 *Uwchradd*

Wrth ystyried modelau cynaliadwy ar gyfer yr uwchradd, bwriedir cynllunio ar y sail y dylai'r strwythur gynnwys modelau (e.e. opsiynau aml-safle) a fyddai'n hwyluso'r broses o sicrhau fod mwy o ysgolion uwchradd yn gallu gweithio mewn partneriaeth.

Mae'n hanfodol fod y strwythur ar gyfer ysgolion uwchradd yn galluogi darpariaeth o gwricwlwm eang ac yn hyrwyddo cysondeb o ran addysgu a dysgu o ansawdd uchel ar draws holl ysgolion y sir.

Mae amser digyswllt uwch reolwyr a rheolwyr canol yn brin iawn ac yn gynyddol mae athrawon yn gorfod dysgu ail a thrydydd pwnc sy'n gallu bod y tu allan i'w maes arbenigedd.

I gyfarch yr angen, bwriedir cydnabod y nodweddion canlynol:

- trefniadau arweinyddiaeth ar gyfer penaethiaid i fod yn gyfrifol yn nifer cynyddol o ddysgwyr;
- ystyriaeth briodol i'r opsiynau ynglŷn â darpariaeth addysg ôl-16;
- sicrhau digon o amser i staff i arwain ar bob lefel;
- adrannau a chyfadrannau hyfyw a gwydn;
- cwricwlwm eang a chyfoethog;
- creu cyfundrefn hunan wella gydweithredol ar draws ysgolion;
- cyfundrefn strategol a llywodraethant effeithiol;
- arweinyddiaeth yn seiliedig ar nifer y dysgwyr.

### 2.2 *Cynradd*

Mae trefn addysg arfaethedig ar gyfer yr ysgolion cynradd wedi'i asesu ar sail egwyddorion cyffredinol, sef amodau arweinyddiaeth sy'n anelu tuag at gynnig 80% o amser digyswllt i'r pennaeth, ynghyd â cheisio sicrhau ysgolion gyda dosbarthiadau o ddim mwy na dau oedran.

Gallai'r nodau hyn ymateb i'r her fwyaf sy'n wynebu'r sector cynradd, sef penaethiaid heb amser digonol i arwain ac athrawon mewn ysgolion bach iawn sydd yn gorfod addysgu ystod eang o blant o wahanol oedrannau a galluoedd yn yr un dosbarth.

Mewn rhai achosion, mae athrawon mewn ysgolion cynradd bach yn addysgu tri neu bedwar o grwpiau blwyddyn mewn un dosbarth ac mae'n anodd sicrhau bod y gwaith yn bodloni anghenion pob disgybl oherwydd yr ystod eang o allu sy'n bodoli ar draws pedair blynedd o oedran dysgu.

2.3 ***Sesiynau Egwyddorion Addysg Cyfundrefn Addas i Bwrpas***

Cynhaliwyd cyfres o sesiynau galw-heibio (18 mewn cyfanswm) ar draws Gwynedd rhwng 7 Tachwedd hyd at 14 Rhagfyr i ymgysylltu gyda rhieni, staff, llywodraethwyr a'r gymuned yn ehangach fel rhan o'r broses o ddatblygu egwyddorion newydd ar gyfer ysgolion Gwynedd.

Gweler yr Atodiad am fanylder yr egwyddorion y bu ymgynghori arnynt, ynghyd â chanlyniadau'r ymgynghoriad.

Isod, manylir ar dri o'r egwyddorion y bu ymgynghori arnynt:

(i) <u>Amser digyswllt i benaethiaid</u>: Roedd 98% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen sicrhau amser digonol i benaethiaid ar gyfer cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol. Roedd nifer uchel o ymatebion yn nodi'r pwysigrwydd i leihau'r baich gweinyddol er mwyn canolbwyntio ar y ddarpariaeth addysg, ynghyd â'r angen i ystyried cydweithio i wella addysg yn y Sir. Nodwyd nifer o'r sylwadau fod angen cydweithio er mwyn lleihau dyblygu gwaith, lleihau pwysau gwaith, a rhoi cyfleoedd i rannu arbenigedd ac ymarferion da.

(ii) <u>Ystod oedran mewn dosbarth</u>: Yn ogystal, roedd 70% yn cytuno gyda'r egwyddor na ddylid dysgu mwy na dau oedran gyda'i gilydd mewn un dosbarth. Cafwyd sawl sylw yn nodi'r anhawster o orfod addysgu plant o fwy na dau oedran er y bod hefyd yn bwysig ystyried oddi mewn cyd-destun ymarferoldeb ar gyfer unrhyw newidiadau.

(iii) <u>Rheolaeth ysgolion uwchradd</u>: Wrth ystyried a ddylai penaethiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion, roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn anghytuno gyda'r egwyddor, er mae'n bosibl fod hyn yn adlewyrchu'r canfyddiad fyddai hyn yn golygu un ysgol o 900 yn hytrach nag ystyried gwahanol fodelau rheoli. Yn ogystal, derbyniwyd nifer helaeth o'r ymatebion yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad fod angen i blant gael eu haddysgu gan arbenigwyr pwnc. Mae angen felly ystyried trefniadau cydweithredol rhwng ysgolion sydd yn creu cyfleoedd i gryfhau'r gyfundrefn, yn cynnwys modelau arweinyddiaeth llorweddol.


2.4 Ar sail canlyniadau'r ymgynghoriad, a gweledigaeth yr Adran Addysg, gofynnir am farn aelodau'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar yr egwyddorion canlynol, a ystyrir yn sail i gyfundrefn addysg Gwynedd i'r dyfodol:

- cyfundrefn o ysgolion uwchradd hyfyw
- dau ystod oedran o fewn yr un dosbarth **yn y cynradd**
- oddeutu 80% o amser di-gyswllt i'r Pennaeth i ganolbwyntio ar faterion arweinyddiaeth **yn y cynradd**


**ATODIAD 1:**

Canlyniadau'r ymgynghoriad ar egwyddorion addysg addas i bwrpas:


### i. Mae'n bwysig cynllunio ar gyfer addysg yng Ngwynedd at y dyfodol





### ii. Mae'n bwysig rhoi digon o amser i Benaethiaid reoli ac arwain er mwyn sicrhau yr addysg orau i'r disgyblion





### iii. Dylai arweinwyr ysgolion unigol gydweithio i wella addysg ar draws y sir





### iv. Pan fo'r niferoedd mewn ysgolion cyfagos yn fychan, dylid rhannu timau rheoli (e.e. pennaeth a dirprwyon) er mwyn sicrhau goroesiad y ddau safle





### v. Dylai penaethiaid ysgolion ganolbwyntio ar ddarpariaeth addysg plant yn hytrach nag ar waith gweinyddol





### vi. Dylai maint dosbarthiadau fod yn gyson ar draws y sir




vii. Ni ddylid dysgu mwy na dau oedran gyda'i gilydd mewn un dosbarth





viii. Mae'n bwysig bod disgyblion yn ein hysgolion uwchradd yn cael eu dysgu gan arbenigwyr pwnc





ix. Dylid uno dwy ysgol fechan gyfagos I greu un ysgol fwy




x. Mae angen cefnogaeth leol ar Lywodraethwyr i'w cefnogi i arwain ysgolion




xi. Mae angen i benaethiaid Gwynedd fod yng ngofal mwy nag un sefydliad




xii. Dylai penaethiaid ysgolion uwchradd fod yng ngofal tua 900 o ddisgyblion

